

Cod Ymarfer ar gyfer Adolygu Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Cynnwys

| | |
|---|----|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Y Cod Ymarfer | 4 |
| 3. Dull arolygu sy'n seiliedig ar hawliau | 5 |
| 4. Adolygu swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwerthuso perfformiad ac Arolygu | 6 |
| 5. Gwerthuso perfformiad | 9 |
| 6. Y broses arolygu | 12 |
| 7. Mathau o arolygiadau | 14 |
| 8. Adrodd a rhoi adborth ar arolygiadau | 15 |
| 9. Sicrhau a monitro gwelliant | 16 |
| 10. Nodi pryderon difrifol neu sylweddol | 17 |
| 11. Ymddygiad yn ystod gweithgareddau arolygu a gwerthuso perfformiad | 19 |
| 12. Gwybodaeth | 20 |
| 13. Terminoleg a ddefnyddir yn y Cod hwn | 22 |
| 14. Cyfeiriadau | 23 |
| Atodiad 1 – Fframwaith arolygu a gwerthuso perfformiad | 25 |
| Atodiad 2 – Atodlen gweithgarwch gwerthuso perfformiad ac arolygu | 26 |

1 Cyflwyniad

Amdanom ni

1.1 Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

1.2 Ein nod yw:

- rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac ymhle a phryd mae ar gael;
- diogelu oedolion a phlant, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu hamddiffyn;
- gwella gofal drwy annog a hybu gwelliannau o ran diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol;
- cyfrannu at bolisi a safonau, a darparu cyngor proffesiynol annibynnol i'r bobl sy'n datblygu polisi, y cyhoedd a'r sector gofal cymdeithasol.

1.3 Rydym yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru;
- penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau;
- arolygu a llywio gwelliannau mewn gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
- cynnal adolygiadau thematig o wasanaethau gofal cymdeithasol;
- cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol;
- dilyn pryderon a godwyd ynghylch gwasanaethau.

1.4 Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru o dan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Safonau Gofal 2000 (Deddf 2000)¹, Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd)², Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002³ a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010⁴ sy'n rhoi pwerau i gofrestru ac arolygu darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.
- Ym mis Ionawr 2016, cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016⁵ (Deddf 2016) ei phasio. Gwnaeth y Ddeddf hon newid y ffordd yr oedd gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio a'i arolygu yng Nghymru. Mae Deddf 2016 yn disodli'r pwerau o dan Ddeddf

¹ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents>

² http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm

³ <http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2003/20030181e.htm>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/contents/enacted/welsh>

⁵ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh>

lechyd a Gofal Cymdeithasol (2003) a Deddf 2000 gyda darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁶ (Deddf 2014) sy'n ymdrin â rheoleiddio'r ffordd y caiff swyddogaethau awdurdodau lleol eu cyflawni.

- Drwy'r pwerau a nodir yn adran 58A ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rydym hefyd yn arolygu gwasanaethau a ddarperir gan CAF/CASS Cymru.

1.5 Mae Deddf 2016 yn gosod ansawdd a gwella gwasanaethau wrth wraidd rheoleiddio, gan roi mwy o ddiogelwch i'r rhai sydd ei angen, ac yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel. Mae hyn yn cefnogi nodau Deddf 2014 sy'n ymgorffori hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yn y gyfraith.

Ein rôl gydag Awdurdodau Lleol

1.6 Mae gan AGC bwerau i adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fel y nodir o dan adran 149 o Ddeddf 2014. Mae hyn yn cynnwys adolygu:

- y ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu cyflawni yng Nghymru yn gyffredinol;
- y ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol penodol eu cyflawni;
- y ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n cyd-fynd â disgrifiad penodol ei chyflawni (gan gynnwys y pŵer i arolygu dau awdurdod lleol neu fwy os ydynt yn gweithio gyda'i gilydd drwy drefniadau rhanbarthol);
- y ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ei chyflawni gan berson neu bersonau penodol.
- Mae Atodlen 2⁷ i Ddeddf 2014 yn cynnwys tabl o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'r swyddogaethau hyn.

1.7 Wrth adolygu perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru, rydym hefyd yn ystyried y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁸, sy'n gosod fframwaith deddfwriaethol unigryw i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Cymru. Mae hyn yn rhoi effeithiolrwydd ac effaith o ymagwedd awdurdodau lleol at wneud penderfyniadau cynllunio ac ariannol wrth galon ein hystyriaethau.

⁶ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/schedule/2/enacted/welsh>

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

- 1.8 Mae gwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir ar ran awdurdod lleol gan y canlynol:
- consortiwm rhanbarthol neu bartneriaeth arall rhwng dau awdurdod lleol neu fwy
 - awdurdod lleol arall
 - sefydliad arall a gomisiynir gan yr awdurdod lleol (er enghraifft, sefydliad gwirfoddol neu gwmni preifat)
- 1.9 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009)⁹ a (2011)¹⁰ yn atgyfnerthu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano. O dan y Mesur, mae'n ofynnol i awdurdodau adrodd ar eu cyflawniad yn erbyn eu hamcanion gwella a chymharu perfformiad ag awdurdodau eraill. Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i arolygiaethau a rheoleiddwyr gydlynw gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio drwy eu methodoleg. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar rannu arfer da.

2 Y Cod Ymarfer

Diben y Cod Ymarfer

- 2.1 Mae'r Cod Ymarfer (y Cod) hwn yn amlinellu dull AGC o adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru drwy ein gweithgarwch gwerthuso perfformiad ac arolygu. Mae rhagor o fanylion am sut y gwnawn hyn wedi'u cynnwys yng Nghyllwedd Arolygu a Gwerthuso Perfformiad Awdurdodau Lleol AGC.
- 2.2 Mae'r Cod yn ofynnol o dan adran 161A o Ddeddf 2014. Mae'n disgrifio sut y byddwn adolygu'r ffordd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eu cyflawni yng Nghymru ac yn nodi'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith arolygu a gwerthuso perfformiad. Mae'n rhaid i AGC llynu wrth y cod.
- 2.3 Er nad yw Deddf 2014 nac, fel y cyfryw, y cod hwn yn ymwneud yn benodol ag arolygu CAF/CASS Cymru, mae'r egwyddorion yn adlewyrchu ein dull cyffredinol o arolygu'r gwasanaeth hwn hefyd.

Yr egwyddorion sy'n llywio ein gwaith

- 2.4 Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio gwaith AGC.
- **Canolbwyntio ar bobl** – rydym yn gosod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wrth wraidd ein gwaith. Mae

⁹ <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/2/contents/enacted/welsh>

¹⁰ <https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh>

gwerthuso tystiolaeth am safbwyntiau pobl ac asesu gwasanaethau yn nhermau canlyniadau i ddiogelwch, llesiant a hawliau pobl yn ganolog i'n gwaith.

- **Cefnogi gwelliant** – rydym yn gweithio mewn ffordd adeiladol i nodi a chefnogi awdurdodau lleol sydd â meysydd pwysig i'w gwella. Rydym yn defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac ysgogi gwelliannau i wasanaethau gofal a chymorth.
- **Bod yn dryloyw** – rydym yn agored am y wybodaeth rydym wedi'i defnyddio i lywio ein gwaith. Mae ein hadroddiadau'n glir ac yn rhoi gwybodaeth i bobl am y cryfderau a'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym.
- **Bod yn deg ac yn ddiuedd** – mae canfyddiadau ein harolygiadau yn seiliedig ar dystiolaeth; mae hyn yn cynnwys arsylwadau, siarad â phobl a gwybodaeth rydym yn ei darllen. Rydym yn rhoi adborth yn syth i'r awdurdod lleol ar ein canfyddiadau, gan gynnwys cryfderau a meysydd lle mae angen gwella. Rydym yn rhoi'r cyfle iddynt gwestiynu unrhyw faterion sy'n ffeithiol anghywir neu'n annheg.
- **Bod yn gadarn** – rydym yn gweithredu mewn ffordd gadarn ac amserol pan fo gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn methu pobl
- **Bod yn gymesur** – rydym yn rhoi cyn lleied o faich â phosibl ar awdurdodau lleol; gan gyfrannu at asesiadau ac adroddiadau ar y cyd â chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill lle bo hynny'n bosibl.
- **Bod yn gyson** – rydym yn defnyddio'r un egwyddorion gyda phob awdurdod lleol rydym yn ei adolygu.

3 Dull arolygu sy'n seiliedig ar hawliau

3.1 Rydym yn sicrhau bod parch, amrywiaeth, hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau pobl wedi'u hymwreiddio yn ein gwaith. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998¹¹, Deddf Cydraddoldeb 2010¹², Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)¹³, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau¹⁴ ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru yn ategu Deddf 2014 a chânt eu hadlewyrchu yn ein dull arolygu a gwerthuso perfformiad.

¹¹ www.equalityhumanrights.com/en/human-rights/human-rights-act

¹² www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance

¹³ www.gov.uk/government/publications/united-nations-convention-on-the-rights-of-the-child-uncrc-how-legislation-underpins-implementation-in-england

¹⁴ <https://www.equalityhumanrights.com/en/our-human-rights-work/monitoring-and-promoting-un-treaties/un-convention-rights-persons-disabilities>

- 3.2 Rhoddir rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yn ein dogfen ganllaw Hawliau Dynol¹⁵.
- 3.3 Rydym yn ystyried yr holl fframweithiau statudol a pholisïau a gweithdrefnau diogelu perthnasol wrth ystyried a yw pobl yn ddiogel. Yn ystod ein gwaith, os gwelwn ymarfer sy'n dangos nad yw pobl yn ddiogel neu nad ydynt yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, byddwn yn gweithredu er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol perthnasol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu pobl. Pan na fydd digon o alluedd gan bobl, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cadw at egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005¹⁶ a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid¹⁷.
- 3.4 Mae Safonau'r Gymraeg¹⁸ a'r Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol¹⁹ yn ein cefnogi ymhellach i weithredu'n seiliedig ar hawliau. Mae'r Safonau a'r fframwaith strategol yn helpu siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn Gymraeg, pan fo angen, heb iddynt orfod gofyn amdanynt. Rydym yn asesu arweinyddiaeth, cyfeiriad a chynnydd awdurdodau lleol wrth ymwreiddio'r Gymraeg mewn gwasanaethau rheng flaen.
- 3.5 Mae AGC hefyd yn darparu'r cynnig rhagweithiol, sy'n cynnwys darparu arolygwyr Cymraeg i ymgysylltu â phobl sydd wedi nodi mai'r Gymraeg yw eu hiaith ddewisol.

4 Adolygu swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwerthuso perfformiad ac Arolygu

- 4.1 Rydym yn adolygu'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn cefnogi ac yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfuniad o weithgareddau arolygu a gwerthuso perfformiad. Drwy hyn, rydym yn cefnogi gwelliant parhaus yn y sector gofal cymdeithasol ac yn cadarnhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae'r fframwaith arolygu a gwerthuso perfformiad i'w weld yn Atodiad 1.
- 4.2 Rydym yn ceisio cydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant. Y peth cyntaf a wnawn yw nodi ymarfer cadarnhaol sy'n sicrhau

¹⁵ <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-04/180409humanrightscy.pdf>

¹⁶ www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents

¹⁷ [Caiff y rhain eu disodli gan Drefniadau Amddiffyn Rhyddid maes o law](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents)

¹⁸ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh>

¹⁹ Mae'r fframwaith strategol (a elwir hefyd yn 'Mwy Na Geiriau') a gyhoeddwyd yn 2017 yn adeiladu ar y ddogfen "Mwy na geiriau" wreiddiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2012.

canlyniadau da i bobl. Byddwn yn eglur o ran yr hyn a nodwn gan gynnwys cryfderau, meysydd i'w datblygu a meysydd sydd angen camau gweithredu fel blaenoriaeth lle mae angen gwella. Byddwn yn rhannu ymarfer cadarnhaol er mwyn cefnogi gwelliannau ledled Cymru.

- 4.3 Mae ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth o lygad y ffynnon. Gall arolygwyr arsylwi ar ymarfer, siarad â phobl am eu profiadau, cyfweld â staff rheng flaen a chynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol. Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar farn broffesiynol arolygwyr profiadol sydd wedi bod yn ymarferwyr.
- 4.4 Caiff ein gwaith ei lywio hefyd gan wybodaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol a'u heffaith ar fywydau pobl, sy'n deillio o'n gwaith arolygu mewn gwasanaethau rheoleiddiedig.
- 4.5 Byddwn yn rhannu'r themâu sy'n codi o'n gwaith adolygu mewn awdurdodau lleol gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru er mwyn llywio polisi cenedlaethol. Byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae bwriadau polisi'n gweithio yn ymarferol.

Ffocws gwaith gwerthuso perfformiad ac arolygu

- 4.6 Yn sail i'n gweithgarwch arolygu ac adolygu perfformiad mae pedair prif egwyddor Deddf 2014:



- 4.7 Byddwn yn ystyried sut mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn rhoi'r egwyddorion hyn ar waith ar dair lefel allweddol:
 - Unigol – canolbwyntio ar brofiadau a chanlyniadau personol pobl
 - Gweithredol – canolbwyntio ar ymarfer rheng flaen a'r gwasanaethau a ddarperir
 - Strategol – canolbwyntio ar arweinyddiaeth, cynllunio a llywodraethu

- 4.8 Ein nod yw cefnogi dysgu a gwelliant, felly bydd gwaith gwerthuso perfformiad ac arolygu hefyd yn ystyried gallu awdurdodau lleol i wella eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn barhaus.
- 4.9 Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn sail i'r datganiadau llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Pobl sydd angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr sydd angen Cymorth (cyhoeddwyd yn 2016). Bydd ein dull gweithredu hefyd yn adeiladu ar unrhyw fframwaith mesur perfformiad²⁰ cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol.

Gweithio gyda chyrrff archwilio, arolygu a rheoleiddiol eraill

- 4.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn cefnogi'r dull gweithredu a'r trefniadau sydd ar waith i arolygu awdurdodau lleol naill ai gan arolygiaethau unigol neu ar y cyd rhwng Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru ac AGC.
- 4.11 Mae Arolygu Cymru yn rhaglen o waith ar y cyd rhyngom ni a'r canlynol:
- Yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru
 - Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
 - Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Mae cytundeb strategol (2011) ar waith ar gyfer partneriaid Arolygu Cymru sy'n nodi trefniadau cydweithio. Mae pob arolygiaeth yn anelu at rannu gwybodaeth a chydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflawni eu rhaglenni gwaith unigol.
- 4.12 Rydym yn cydlynu gwaith gyda'r arolygiaethau yng Nghymru hefyd er mwyn cyfrannu'n llawn at lunio safbwynt traws-arolygiaethaol ar berfformiad llywodraeth leol yng Nghymru gyfan. Drwy gydweithio'n effeithiol, gall yr arolygiaethau sicrhau effaith fwy cadarnhaol i bobl. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau eraill yn y DU, gan gynnwys cydweithio â'r canlynol fel y bo'n briodol:
- Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
 - Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
 - Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
- 4.13 Gyda'r ymgyrch i gydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae'n fwyfwy tebygol y bydd achlysuron rheolaidd yn codi pan fydd arolygiadau ar eu mwyaf effeithiol pan gânt eu cynnal ar y cyd ag arolygiaethau eraill, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud â chyfrifoldebau llesiant ehangach

²⁰ Caiff safonau ansawdd eu nodi yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol (a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2014).

awdurdodau lleol a'u partneriaid. Gall hyn hefyd gynnwys arolygu trefniadau rhanbarthol statudol fel byrddau partneriaeth a byrddau diogelu.

- 4.14 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru²¹ i rannu gwybodaeth er mwyn cefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal cymdeithasol.

5 Gwerthuso perfformiad

- 5.1 Elfen bwysig o'n gwaith yw monitro a gwerthuso'n barhaus berfformiad awdurdodau lleol o ran cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn cychwyn drwy werthuso a yw pobl yn cael eu cefnogi i sicrhau canlyniadau personol cadarnhaol. Bydd gan bob awdurdod lleol uwch reolwr cyswllt o fewn AGC i fonitro a herio eu perfformiad a'u cynnydd yn erbyn blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Ein nod yw helpu awdurdodau lleol i ddeall eu cryfderau a'r meysydd y mae angen iddynt eu datblygu yn well. Byddwn yn cynnal cydberthynas waith adeiladol â'r awdurdod lleol ac yn rhannu arfer gorau lle bo hynny'n berthnasol.
- 5.2 Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â phobl er mwyn sicrhau bod ein gwybodaeth yn seiliedig ar leisiau a phrofiadau pobl. Rydym yn ymgysylltu â phobl yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn; mae hyn yn sicrhau bod ein gwybodaeth yn gwbl seiliedig ar leisiau pobl. Rydym hefyd yn croesawu adborth gan bobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid a byddwn yn ystyried gweithgarwch ymgysylltu'r awdurdodau lleol eu hunain.
- 5.3 Mae'n bwysig nodi nad oes gan AGC bwerau i ymchwilio i gwynion unigol am y gwasanaethau cymdeithasol; fodd bynnag, bydd yn cydnabod unrhyw bryderon a ddaw i law, yn gwneud gwaith dilynol mewn perthynas â nhw os yw hynny'n briodol ac yn cadw cofnod o'r materion a nodir. Os bydd rhywun a gyflogir gan yr awdurdod lleol yn codi pryder, gall hyn gael ei ystyried yn achos o chwythu'r chwiban yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998²² a chaiff ei drin yn unol â hynny. Mae AGC yn 'gorff rhagnodedig' ar ran Gweinidogion Cymru (Gorchymyn Personau Rhagnodedig 2014).
- 5.4 Mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn gwerthuso'u hunain yn rheolaidd fel rhan hanfodol o'u cylch gwella busnes. Mae gwaith

²¹ Fel rheoleiddiwr y gweithlu, gall Gofal Cymdeithasol Cymru bennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan ei wneud yn atebol am ei waith; datblygu'r gweithlu fel bod ganddo'r wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen help; gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau mewn ardaloedd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol; pennu blaenoriaethau ymchwil er mwyn casglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda; a rhannu arfer da â'r gweithlu fel ei fod yn gallu darparu'r ymateb gorau.

²² <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/23/contents>

hunanwerthuso gonest a thrylwyr, ynghyd ag asesiadau risg trwyadl, yn galluogi awdurdodau lleol i gynnal a datblygu ymarfer a gwasanaethau sy'n sicrhau canlyniadau personol cadarnhaol i bobl ymhellach, cynllunio gwelliannau lle bo angen a gwneud penderfyniadau hyddysg ynghylch defnyddio adnoddau'n effeithlon. Bydd AGC yn gofyn yn rheolaidd i awdurdodau lleol beth y maent yn ei wybod am brofiadau a chanlyniadau pobl a sut maen nhw'n gwybod hynny.

- 5.5 O dan Ddeddf 2014, mae'n rhaid i gyfarwyddwyr statudol gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol²³ sy'n nodi sut mae'r awdurdod lleol wedi cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth sy'n helpu i lywio ein rhaglen arolygu a gwerthuso perfformiad. Yn ogystal, gallwn ofyn iddynt gwblhau hunanasesiad penodol fel rhan o'n rhaglenni gwaith thematig.
- 5.6 Byddwn yn cyflawni gweithgarwch â phwyslais penodol ym mhob awdurdod lleol bob blwyddyn. Gall y gweithgarwch hwn ymwneud â thema arolygiadau neu gall geisio canfod mwy o wybodaeth am gryfder a nodwyd gan yr awdurdod lleol. Fel rhan o'r gweithgarwch hwn, byddwn yn siarad â phobl a gallwn hefyd adolygu ffeiliau achos ac arsylwi ar ymarfer. Byddwn yn rhoi adborth ysgrifenedig ffurfiol i'r awdurdod lleol ar ein canfyddiadau. Byddwn yn rhannu enghreifftiau o ymarfer cadarnhaol â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau dull cydweithredol o wella gwasanaethau cymdeithasol ledled Cymru.
- 5.7 Mae gweithgarwch gwerthuso perfformiad hefyd yn cynnwys cyfarfod blynyddol â chyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol ynghyd â chyfarfodydd rheolaidd â phenaethiaid gwasanaethau oedolion a phlant. Gallwn fynd i gyfarfodydd perthnasol pwyllgorau craffu a chyfarfodydd y cyngor llawn er mwyn gwerthuso i ba raddau y mae aelodau'r awdurdod lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau i arwain a llywodraethu gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdod lleol.
- 5.8 Ar y cyd â Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn, byddwn yn ceisio cyfarfod â phrif weithredwr yr awdurdod lleol bob blwyddyn. Yn ystod y cyfarfod, byddwn yn trafod y gefnogaeth gorfforaethol a roddir i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r ffordd y cânt eu cyflawni.

²³ Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau i Awdurdodau Lleol ar baratoi eu hadroddiadau blynyddol ar y gwasanaethau cymdeithasol, sydd ar gael ar yr Hwb Gwybodaeth a Dysgu ar gyfer Gofal Cymdeithasol - <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb-taflenni>

5.9 Byddwn yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd y llythyr yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn;
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion o arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion.
- amlinellu ein blaenraglen waith.

Bydd yr awdurdod lleol yn cael cyfle i wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y llythyr cyn iddo gael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

5.10 Yn ogystal, bydd gan bob bwrdd partneriaeth a bwrdd diogelu rhanbarthol reolwr cyswllt penodedig o fewn AGC. Ar y cyd â phartneriaid Arolygu Cymru, byddwn yn monitro ac yn herio effeithiolrwydd y camau a gymerir i weithredu cynlluniau diogelu a rhanbarthol a'u heffaith o ran gwella canlyniadau i bobl. Byddwn hefyd yn monitro effeithiolrwydd gwelliannau sy'n deillio o Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion. Byddwn yn cynnal cydberthynas waith adeiladol â'r byrddau rhanbarthol ac yn rhannu arfer gorau lle bo hynny'n berthnasol.

5.11 Os byddwn yn gweld patrwm o bryderon yn deillio o'n gweithgarwch gwerthuso perfformiad, gallwn gynnal Cynhadledd Gwella²⁴. Mae hyn yn cyd-fynd ag ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â phroblemau'n gynnar cyn iddynt waethygu.

5.12 Mae'r gynhadledd yn ystyried cryfderau i adeiladu arnynt a rhwystrau i gynnydd ac yn archwilio atebion posibl i'r rhwystrau hyn. Mae'n ffordd i AGC gael sicrwydd bod yr awdurdod lleol, drwy ei uwch swyddogion a'i aelodau etholedig, yn:

- cydnabod ac yn llwyr ddeall unrhyw bryderon sydd gennym am ei berfformiad, ei ddarpariaeth neu'i arweinyddiaeth;
- derbyn unrhyw bryderon a chymryd perchenogaeth drostynt;
- meddu ar gynlluniau priodol i gyflawni gwelliannau'n gyflymach a mynd i'r afael â rhwystrau i wella yn ddi-oed;
- meddu ar y capasiti, yr adnoddau a'r gallu i gyflawni ei gynlluniau;
- defnyddio prosesau priodol i fonitro cynnydd yn erbyn ei gynlluniau.

5.13 Ar ôl cynhadledd gwella, byddwn yn ysgrifennu at gyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi adborth ar bryderon a'r camau gweithredu y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid, lle bo hynny'n berthnasol, wedi cytuno i'w cymryd.

5.14 Gellir defnyddio cynhadledd gwella i wneud gwaith dilynol ar effaith gweithgarwch gwella awdurdod lleol yn dilyn arolygiad.

²⁴ Rhoddir rhagor o wybodaeth am y Gynhadledd Gwella mewn canllawiau arfer AGC ar wahân.

6 Y broses arolygu

- 6.1 Mae arolygu yn un o weithgareddau craidd AGC ac mae'n helpu i sicrhau bod pobl sydd angen gwybodaeth, cyngor a chymorth, neu ofal a chefnogaeth yn ddiogel, bod eu llesiant yn cael ei hyrwyddo a bod eu hawliau'n cael eu diogelu.
- 6.2 Bydd ffocws arolygiadau yn newid dros amser yn dibynnu ar ffocws thematig penodol yr arolygiad a'r materion a'r heriau allweddol sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd pob arolygiad yn asesu i ba raddau y mae gwaith gwasanaethau cymdeithasol yn helpu pobl i gyflawni canlyniadau personol cadarnhaol.
- 6.3 Byddwn yn ystyried p'un a yw pobl yn cael profiadau cadarnhaol o wasanaethau cymdeithasol a ph'un a ydynt yn cael cymorth i gyflawni canlyniadau personol cadarnhaol. Drwy hynny, byddwn yn adolygu p'un a yw ymarfer a'r gwasanaethau a ddarperir yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl; yn amserol ac yn gymesur; yn rhoi rheolaeth i bobl ac yn eu cadw'n ddiogel; yn cael eu rheoli a'u harwain yn dda gan weithio mewn partneriaeth â phobl ac asiantaethau eraill; ac yn cael eu hategu gan dystiolaeth sy'n seiliedig ar ymarfer.
- 6.4 Ein nod yw cefnogi dysgu a gwelliant, felly bydd arolygiadau hefyd yn ystyried gallu awdurdod lleol i wella'n barhaus

Pryd bydd gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael eu harolygu?

- 6.5 Byddwn yn trefnu bod pob awdurdod lleol yn cael un arolygiad o wasanaethau oedolion ac un arolygiad o wasanaethau plant yn ystod cyfnod o bedair blynedd. Fel arfer, ni fydd arolygiadau o wasanaethau cymdeithasol i oedolion ac arolygiadau o wasanaethau cymdeithasol i blant yn cael eu cynnal ar yr un pryd yn yr un awdurdod lleol.
- 6.6 Os yw'n bosibl, bydd AGC yn trefnu o leiaf un arolygiad o fewn ôl troed pob un o'r partneriaethau rhanbarthol yn ystod pob blwyddyn o'r cylch. Byddwn yn trafod y rhaglen â'n partneriaid yn Arolygu Cymru er mwyn osgoi dyblygu a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio.
- 6.7 Fel arfer, byddwn yn **rhoi rhybudd i'r awdurdod lleol am arolygiadau unigol bedair wythnos cyn i waith maes yr arolygiad ddechrau**; bydd hyn yn caniatáu amser i gynllunio a pharatoi. Cynhelir cyfarfod sefydlu rhagarweiniol i drafod cwmpas yr arolygiad a chytuno ar amserlen y gwaith maes. Byddwn yn

gymesur o ran faint o wybodaeth a gwaith paratoi y byddwn yn eu disgwyl gan yr awdurdod lleol cyn yr arolygiad.

- 6.8 Pan gaiff ei hysbysu am yr arolygiad, dylai'r awdurdod lleol adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu a thynnu sylw ar unwaith at unrhyw wrthdaro buddiannau canfyddedig neu wirioneddol cyn i'r arolygiad ddechrau.

Sut rydym yn arolygu

- 6.9 Bydd dull gweithredu ac amserlenni pob arolygiad o fewn y rhaglen arolygiadau wedi'u trefnu yn gyson ym mhob awdurdod lleol ac ym mhob gwasanaeth plant ac oedolion. Mae tri phrif gam i'r arolygiadau: cynllunio/paratoi, gwaith maes ac adrodd. Fel arfer, caiff gwaith maes arolygiad ei gyflawni dros ddwy wythnos ar wahân. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar faint a chymhlethdod yr awdurdod lleol a chwmpas yr arolygiad.

- 6.10 Bydd pob arolygiad yn defnyddio gwybodaeth sydd ar gael o arolygiadau blaenorol; gweithgarwch gwerthuso perfformiad, arolygiadau o wasanaethau rheoleiddiedig, gwybodaeth am berfformiad, asesiadau o anghenion y boblogaeth a gwybodaeth a ddelir gan arolygiaethau eraill. Byddwn hefyd yn ystyried gwybodaeth ac adroddiadau a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i gynllunio a sicrhau ansawdd y swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a gyflawnir ganddo.

- 6.11 Yn ystod arolygiad, byddwn yn chwilio am dri math bras o dystiolaeth.
- **Yr hyn rydym yn ei glywed** – byddwn yn siarad â phobl sydd wedi defnyddio a/neu sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth a'u gofalwyr, ac yn gwranddo arnynt. Rydym hefyd yn siarad â staff awdurdodau lleol, eu rheolwyr ac uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn ogystal ag asiantaethau partner.
 - **Yr hyn rydym yn ei weld** – lle y bo'n ymarferol ac yn briodol, byddwn yn arsylwi ar ymarfer perthnasol ym maes gwasanaethau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r arolygiad.
 - **Yr hyn rydym yn ei ddarllen** – byddwn yn edrych ar gofnodion ysgrifenedig, dogfennau polisi, arolygon, ffeiliau achos a deunydd ysgrifenedig arall.

- 6.12 Bydd yr arolygiad yn canolbwyntio ar brofiadau a chanlyniadau personol pobl, fel y'u nodir mewn cofnodion achos ac fel y'u disgrifir gan ddefnyddwyr gwasanaethau/gofalwyr a staff o'r awdurdod lleol; a'r graddau y mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth o'n gweithgarwch ymgysylltu ehangach.

- 6.13 Rydym hefyd yn ystyried ansawdd trefniadau arwain a llywodraethu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r ffordd y maent yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol a gwelliannau i'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn dyrannu adnoddau, ei drefniadau rheoli perfformiad, trefniadau partneriaeth, trefniadau comisiynu a data contractiol ac ariannol.
- 6.14 Ar ôl gwaith maes yr arolygiad, bydd canfyddiadau, tystiolaeth ategol a chasgliadau'r tîm arolygu yn cael eu cynnwys mewn adroddiad arolygu, a fydd ar gael yn gyhoeddus ar ôl i'r awdurdod lleol gael cyfle i wneud sylwadau arno.

7 Mathau o arolygiadau

- 7.1 Rydym yn cynnal tri phrif fath o arolygiad mewn awdurdodau lleol:

Arolygiad thematig wedi'i drefnu

- 7.2 Bob blwyddyn, rydym yn dewis ffocws thematig ar gyfer ein harolygiadau mewn awdurdodau lleol. Caiff y thema ei chyhoeddi ymlaen llaw a'i nodi yn ein llythyr blynyddol i awdurdodau lleol. Bydd hyn hefyd yn llywio ein gweithgarwch ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ogystal â gwaith hunanwerthuso posibl gan awdurdodau lleol.
- 7.3 Prif ffocws yr arolygiad thematig wedi'i drefnu yw rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd profiadau a chanlyniadau personol pobl. Mae hyn yn golygu dadansoddi a gwerthuso ymarfer a pherfformiad yn fanwl, ynghyd â nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.

- 7.4 Gall arolygiadau thematig gael eu cynnal ar y cyd ag arolygiaethau eraill os yw hynny'n ychwanegu gwerth.

- 7.5 Efallai y caiff adroddiad trosolwg cenedlaethol ei lunio.

Arolygiad dilynol

- 7.6 Cynhelir arolygiadau dilynol er mwyn asesu cynnydd yn erbyn meysydd i'w gwella a nodwyd pan fo arolygiad wedi canfod pryderon difrifol neu sylweddol. Gall awdurdodau lleol gael eu gwahodd i gyflwyno hunanwerthusiad o'u cynnydd o ran gwneud gwelliannau cyn gwaith maes yr arolygiad.

Arolygiad ymatebol

- 7.7 Weithiau, efallai y byddwn yn ystyried bod angen ymateb i bryderon difrifol y tu allan i'r rhaglen arolygiadau wedi'u trefnu drwy gynnal arolygiad ymatebol. Mae'n debygol y caiff y fath arolygiad ei ysgogi gan ddiffyg gwelliant yn dilyn cynhadledd gwella neu os oes gennym bryderon sy'n ddigon difrifol i warantu arolygiad manwl.
- 7.8 Nodir pa mor aml y caiff perfformiad ei werthuso ac y cynhelir arolygiadau mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn Atodiad 2.

8 Adrodd a rhoi adborth ar arolygiadau

- 8.1 Bydd y prif arolygydd wedi cyfarfod yn rheolaidd â phennaeth gwasanaeth perthnasol yr awdurdod lleol drwy gydol yr arolygiad. Ar ddiwedd y gwaith maes, byddwn yn rhoi adborth llafar lefel uchel, cychwynnol i gyfarwyddwr statudol y gwasanaethau cymdeithasol a'r pennaeth gwasanaeth. Bydd hwn yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau cychwynnol yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol sy'n llywio'r arolygiad. Ni ddylai unrhyw beth annisgwyl godi oherwydd byddwn wedi cynnal cyfarfodydd 'cadw mewn cysylltiad' rheolaidd drwy gydol yr arolygiad.
- 8.2 Mae AGC yn awyddus i wella'n barhaus ac, ar ddiwedd y gwaith maes, byddwn yn anfon holiadur adborth. Yna, byddwn yn anfon arolwg byrrach ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi.
- 8.3 Bydd adroddiadau arolygu'n nodi cryfderau, meysydd i'w datblygu ymhellach a meysydd sydd angen camau gweithredu fel blaenoriaeth er mwyn sicrhau gwelliant. Byddwn yn sicrhau bod naratif yr adroddiad arolygu yn glir ynghylch ansawdd gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, gan gynnwys y cryfderau a'r meysydd i'w gwella.
- 8.4 Rydym yn ceisio drafftio, cwblhau a chyhoeddi adroddiadau arolygu o fewn 50 diwrnod gwaith, ar ôl cwblhau gwaith maes yr arolygiad. Fodd bynnag, gallwn ymestyn yr amserlen hon o dan amgylchiadau eithriadol.
- 8.5 Mae disgwyl i bob adroddiad arolygu gael ei ysgrifennu a'i rannu â'r awdurdod lleol fel fersiwn ddrafft o fewn 25 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cwblhawyd gwaith maes yr arolygiad.
- 8.6 Mae pob adroddiad arolygu yn dilyn proses gymedroli sy'n cynnwys adolygiad cymheiriad gan uwch reolwr nad yw'n rhan o'r tîm arolygu gwreiddiol a gwaith craffu gan y pennaeth arolygu awdurdodau lleol.

- 8.7 Rydym yn ceisio sicrhau bod ein hadroddiadau arolygu'n deg a bod ein canfyddiadau wedi'u seilio'n briodol ar waith i driongli'r dystiolaeth a gesglir. Felly, er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, rydym yn derbyn hawl awdurdodau lleol i ymateb i'n hadroddiadau a gwneud sylwadau ar ein canfyddiadau os credant eu bod yn ffeithiol anghywir. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gywiro unrhyw wallau cyn i adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi. Rhoddir 10 diwrnod gwaith i'r awdurdod lleol ystyried yr adroddiad drafft ac ymateb iddo. Dylai unrhyw adborth bob amser nodi'r rhan(nau) o'r adroddiad sy'n cael ei/eu herio a rhoi'r rhesymau dros yr her gyda thystiolaeth ategol.
- 8.8 Caiff yr adroddiad arolygu ei gyhoeddi ar ein gwefan o fewn 25 diwrnod i'r dyddiad y daw sylwadau'r awdurdod lleol i law. Disgwylir i'r awdurdod lleol gyflwyno'r adroddiad i aelodau etholedig a'i wneud yn destun proses graffu gyhoeddus drwy gyfarfod pwyllgor ffurfiol ac agored, gan hefyd wahodd AGC i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

9 Sicrhau a monitro gwelliant

- 9.1 Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r camau y bydd yn eu cymryd mewn ymateb i ganfyddiadau a nodir yn ein hadroddiad arolygu a hysbysu AGC o fewn 20 diwrnod gwaith i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Efallai yr hoffai'r awdurdod lleol gynnwys y camau hyn mewn cynlluniau gwella / cynlluniau gweithredol sy'n bodoli eisoes ac nid oes yn rhaid iddo lunio cynllun gwella ar wahân ar gyfer AGC.
- 9.2 Dylai'r cynllun nodi, mewn iaith glir, y ffordd y bydd yr awdurdod lleol yn gwella trefniadau i sicrhau canlyniadau personol cadarnhaol i bobl, o ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad. Gall AGC roi adborth ar gynlluniau gwella a gynigir ond nid ein gwaith ni yw cymeradwyo neu gadarnhau'r rhain yn ffurfiol.
- 9.3 Fel arfer, byddwn yn monitro cynnydd drwy ein gweithgareddau gwerthuso perfformiad. Fodd bynnag, os byddwn wedi nodi ymarfer gwael ac os oes gennym bryderon sylweddol (gweler adran 10), byddwn yn cynnal arolygiad dilynol.
- 9.4 Os byddwn wedi nodi pryderon difrifol, efallai y byddwn yn cynnal arolygiad dilynol. Yn yr achos hwn, bydd y penderfyniad i gynnal arolygiad dilynol yn dibynnu ar natur y pryderon a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol; unrhyw gynnydd sydd wedi cael ei wneud i roi cynlluniau gwella ar waith; a chanlyniad gweithgarwch monitro. Byddwn yn hysbysu'r awdurdod lleol ymlaen llaw am arolygiad dilynol.

10 Nodi Pryderon Difrifol neu Sylweddol

- 10.1 Weithiau, gall canfyddiadau arolygiad wneud i ni benderfynu bod yr awdurdod lleol yn annigonol neu'n wael. Mae gennym ddwy lefel o bryder – difrifol a sylweddol, gyda chamau gweithredu cysylltiedig.
- 10.2 Ym mhob achos, byddwn yn gwneud penderfyniad ynghylch pa mor ddifrifol a sylweddol yw'r problemau, eu heffaith ar bobl, achosion ymddangosiadol a gallu'r awdurdod lleol i ddatrys y problemau hynny. Bydd y broses o sefydlu pryderon a'r ymateb dilynol yn digwydd mewn ffordd agored a thryloyw gan ymgynghori â'r awdurdod lleol.
- 10.3 Bydd gennym bryderon **difrifol** pan fydd canlyniadau personol pobl, ymarfer gweithredol ac arweinyddiaeth strategol yn annigonol. Mae pryderon difrifol yn codi pan fydd difrifoldeb, amllder neu barhad y problemau'n golygu na ellir eu datrys drwy ymarfer arferol.
- 10.4 Os bydd gennym bryderon difrifol, byddwn yn llunio amserlen o waith monitro gwelliant ffurfiol a byddwn yn helpu i gyfeirio'r awdurdod lleol at ffynonellau o gymorth ac ymarfer cadarnhaol. Yn dibynnu ar ganlyniad ein gwaith monitro, efallai y byddwn yn cynnal cynhadledd gwella o fewn 12-18 mis ar ôl yr arolygiad neu'n cynnal arolygiad dilynol.
- 10.5 Bydd gennym bryderon **sylweddol** pan fydd canlyniadau personol pobl, ymarfer gweithredol ac arweinyddiaeth yn wael. Mae pryderon sylweddol yn codi pan fydd hyd a lled y meysydd pryder yn cael effaith sylweddol ar lesiant pobl am nad ydynt yn cael eu diogelu'n ddigonol neu am eu bod yn profi canlyniadau personol gwael.
- 10.6 Os byddwn wedi nodi pryderon sylweddol, bydd AGC yn cyfarfod â swyddogion awdurdodau lleol i drafod y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Lle bo hynny'n bosibl, bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal cyn i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi'n ffurfiol.
- 10.7 Bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys Prif Arolygydd AGC (neu'r Dirprwy Brif Arolygydd), y Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (neu'r dirprwy gyfarwyddwr) a phrif weithredwr a chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Gall eraill, fel cynrychiolydd o'r tîm arolygu neu Swyddfa Archwilio Cymru, gael eu gwahodd fel y bo'n briodol.

10.8 Bydd swyddogion yn trafod y rhesymau dros y pryderon (gan gynnwys unrhyw sylwadau gan yr awdurdod lleol), y camau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd i ymateb i'r pryderon ac unrhyw gamau pellach y gall Gweinidogion Cymru eu cymryd er mwyn delio â'r pryderon a/neu fonitro cynnydd.

10.9 Lle bo pryder sylweddol, o dan adran 151 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gall Gweinidogion Cymru roi hysbysiad rhybuddio i awdurdod lleol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r awdurdod lleol wedi methu, neu'n debygol o fethu, â chydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol;
- mae'r awdurdod lleol wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol;
- mae'r awdurdod lleol yn methu, neu'n debygol o fethu, â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn unol â safon ddigonol.

10.10 Caiff y penderfyniad i roi hysbysiad rhybuddio ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn seiliedig ar ganlyniad yr arolygiad. Pan roddir hysbysiad rhybuddio, bydd yn nodi'r rhesymau dros ymyrryd, y camau y mae angen i'r awdurdod lleol eu cymryd a'r amser sydd ganddynt i wneud hynny; yn ogystal â'r camau y gall Gweinidogion Cymru eu cymryd os na fydd yr awdurdod lleol yn cymryd y camau gofynnol.

10.11 Caiff yr hysbysiad rhybuddio ei adolygu ar ôl 90 diwrnod a bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ddylid rhoi hysbysiad arall.

10.12 Os bydd pryderon sylweddol wedi'u nodi, bydd AGC yn cynnal rhaglen monitro gwelliant ffurfiol a bydd yn cynnal arolygiad dilynol o fewn 12-18 i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad arolygu, er mwyn cael sicrwydd bod gwelliannau digonol wedi cael eu gwneud.

10.13 Byddwn yn helpu i gyfeirio'r awdurdod lleol at ffynonellau o gymorth ac ymarfer cadarnhaol. Mae'r Protocol Cymorth ac Ymyrryd – Llywodraeth Leol yn nodi'r cymorth gwella a all fod ar gael i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, er enghraifft.

11 Ymddygiad yn ystod gweithgareddau arolygu a gwerthuso perfformiad

11.1 Mae'r arolygwyr a gyflogir gan AGC wedi dod o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r holl arolygwyr yn weision sifil ac mae'n rhaid iddynt gyrraedd y safonau proffesiynol a nodir yng Nghod y Gwasanaeth Sifil²⁵. Yn yr un modd â gweithwyr gofal cymdeithasol, mae arolygwyr yn gweithio'n unol â'r Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol²⁶. Mae hyn yn golygu y disgwylir inni wneud y canlynol:

- gwneud ein gwaith gyda gofal, uniondeb, cwrteisi, sensitifrwydd a phroffesiynoldeb;
- gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir yn wrthrychol, gan sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei thriongli a'i phwysoli'n briodol;
- adrodd ar yr arolygiad mewn modd gonest, teg a diduedd;
- cyfathrebu'n glir ac yn agored er mwyn hybu iechyd, diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal;
- ymddwyn er pennaf les y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau;
- parchu cyfrinachedd gwybodaeth;
- bod yn atebol a chymryd cyfrifoldeb am ansawdd ein gwaith;
- hyrwyddo, diogelu a pharchu preifatrwydd, urddas, hawliau, iechyd a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a phobl a gyflogir gan wasanaethau gofal

Sut y gall staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol gefnogi ein gwaith

11.2 Byddwn bob amser yn ceisio lleihau'r effaith y gall gweithgarwch arolygu neu werthuso perfformiad ei chael ar yr awdurdod lleol, ei staff a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol. Er mwyn ein helpu i gyflawni'r nod hwn, gall awdurdodau lleol a'u staff gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- darparu tystiolaeth a fydd yn galluogi arolygwyr i lunio adroddiad gonest, teg a dibynadwy am yr awdurdod lleol;
- cynnal trafodaeth bwrpasol ag AGC;
- cydnabod bod angen i ni siarad ag aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid eraill heb fod rheolwyr neu uwch arweinwyr yn bresennol;
- tynnu sylw'r arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn ffordd amserol ac addas drwy'r prif arolygydd, tra bod y tîm arolygu ar y safle, yn ddelfrydol;
- gweithio gyda ni i leihau unrhyw darfu a phwysau i'r eithaf drwy gydol yr arolygiad neu'r gweithgarwch gwerthuso perfformiad;
- rhoi gwybod i ni am faterion iechyd a diogelwch tra'n bod ar safle'r awdurdod lleol;

²⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code/the-civil-service-code#standards-of-behaviour>

²⁶ https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Cod-Ymarfer-Proffesiynol-2017.pdf

- yn ystod adborth, os byddwch yn anghytuno ag unrhyw beth y mae'r arolygydd yn ei ddweud, rhowch wybod iddo ac eglurwch eich rhesymau;
- cadw cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu'n gyfrinachol nes i'r adroddiad gael ei gyhoeddi'n derfynol;
- hysbysu'r prif arolygydd neu'r pennaeth arolygu awdurdodau lleol cyn gynted â phosibl os oes gennych unrhyw bryderon am ymddygiad arolygydd yn ystod arolygiad.

Gwneud cwyn i AGC

11.3 Os bydd gan yr awdurdod lleol, unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau cymdeithasol neu aelod o'r cyhoedd gŵyn am waith AGC neu aelod o staff AGC, mae gennym bolisi cwynion y dylid ei ddilyn. Ni fydd cwyn yn erbyn ymddygiad arolygydd yn golygu oedi cyn cyhoeddi adroddiad arolygu, fel arfer.

12 Gwybodaeth

12.1 Y ddealltwriaeth a'r wybodaeth sydd gennym yw un o'n hasedau pwysicaf.

Mae'n sicrhau bod y penderfyniadau a wnawn a'r cyngor a roddwn yn cael ei ategu gan sylfaen dystiolaeth gadarn.

12.2 Drwy ein prosesau arolygu a gwerthuso perfformiad rydym yn casglu ac yn cadw llawer o wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn ogystal â gwybodaeth o ffynonellau gwybodaeth eraill. Mae'r wybodaeth werthfawr hon yn ein helpu i asesu sut mae adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn perfformio gyda'u cyfrifoldebau deddfwriaethol.

12.3 Efallai y byddwn yn cael ceisiadau achlysurol i ryddhau gwybodaeth yn ymwneud ag achos neu wasanaeth unigol. Mae gan unrhyw unigolyn yr hawl i wneud cais am wybodaeth a gofnodir sydd gennym, ac, yn amodol ar ofynion statudol deddfwriaeth am drin gwybodaeth, i gael copi o'r wybodaeth hon.

12.4 Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg gywir, a'n bod yn cadarnhau'r gofynion statudol sy'n ofynnol gennym, rydym yn gwneud y canlynol:

- Diogelu'r wybodaeth sydd gennym, yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau safonau uchel o ran gwarchod gwybodaeth a diogelu data.
- Storio ein gwybodaeth yn y ffordd gywir, gan ddilyn egwyddorion rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru²⁷.

²⁷ <http://gov.wales/about/foi/policies/recordsmanagement/?lang=cy>

- Ymateb i geisiadau am wybodaeth o fewn y prosesau a'r amserlenni a sefydlwyd sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith²⁸.
- Rhannu gwybodaeth yn briodol ac mewn modd cyfreithlon, er mwyn gwella ac aildefnyddio ein gwybodaeth, gweithio ar y cyd a lleihau achosion o ddyblygu.

12.5 Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd²⁹, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data ddiweddaraf, yn crynhoi'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â phob math o wybodaeth bersonol a gasglwn. Mae hyn yn cynnwys y sail gyfreithiol ar gyfer casglu'r wybodaeth hon, y ffordd y caiff y wybodaeth ei phrosesu, am ba hyd y caiff ei chadw, pwy y gellir ei rhannu â nhw, beth yw eich hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth a'r contractau perthnasol y gallai fod eu hangen arnoch.

12.6 Mewn rhai achosion gall AGC gynnal neu gymryd rhan mewn arolygiad ar y cyd â chyrff neu asiantaethau rheoleiddiol eraill, fel yr Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n hanfodol y caiff gwybodaeth ei rhannu â'r cyrff neu asiantaethau rheoleiddiol hyn er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ac adnoddau eu defnyddio'n effeithiol. Yn y sefyllfaoedd hyn rydym yn rhannu gwybodaeth yn unol â'r gofynion statudol a roddir arnom.

²⁸ Mae pedair cyfraith yn rheoli ein dull o fynd i'r afael â cheisiadau am wybodaeth, sef Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliad Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

²⁹ <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

13 Terminoleg a ddefnyddir yn y Cod hwn

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

Cod Ymarfer

Disgrifiad lefel uchel o'r modd y cynhelir yr adolygiad o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn unol â gofynion Deddf 2014.

Chwythwr chwiban

Rhywun sy'n codi mater o bryder cyhoeddus ynghylch drygioni, risg neu gamarfer y mae'n ymwybodol ohono drwy ei waith. Caiff chwythwyr chwiban eu diogelu gan y gyfraith, rhag cael eu cam-drin neu rhag cael eu diswyddo.

Diogelu

Term cyffredinol ar gyfer camau gweithredu a gymerir er mwyn hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed a'u diogelu rhag cael eu hesgeuluso, eu cam-drin a rhag achosion o gam-fanteisio arnynt.

Gofal a chymorth

Mae gofal yn cyfeirio at dasgau ac anghenion corfforol a meddyliol y person sy'n derbyn gofal, ac mae cymorth yn cyfeirio at y dulliau cwnsela, cyngor neu help arall a roddir fel rhan o gynllun a gaiff ei baratoi ar gyfer y person sy'n derbyn cymorth.

Llesiant

Mae'n cyfeirio'n eang at gyflwr person sy'n iach, yn hapus, yn ddiogel ac yn fodlon ei fyd.

Rheoleiddiwr

Sefydliad a sefydlwyd gan y llywodraeth i oruchwylio maes o weithgarwch masnachol neu gymdeithasol, drwy reolau a rheoliadau.


14 Cyfeiriadau

| | |
|--|---|
| Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) | https://arolygiaethgofal.cymru/ |
| Cod y Gwasanaeth Sifil | https://www.gov.uk/government/publications/civil-service-code/the-civil-service-code |
| Cod Ymarfer mewn perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol | https://gov.wales/topics/health/socialcare/well-being/performance/?lang=cy |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn | https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ |
| Cynnig Rhagweithiol | https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/mwy-na-geiriau-ar-cynnig-rhagweithiol?record-language-choice=en-cy |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance |
| Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 | https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1998/23/contents |
| Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2005/9/contents |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_mi.pdf |
| Deddf Hawliau Dynol 1998 | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh |
| Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/6/pdfs/anaw_20150006_we.pdf |
| Deddf Plant 1989 (fel y'i diwygiwyd) | http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1989/Ukpga_19890041_en_1.htm |
| Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 | https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh |
| Deddf Safonau Gofal 2000 | http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/contents |
| Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru | https://gov.wales/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy |
| Fframwaith Strategol ar gyfer | https://gov.wales/docs/dhss/publications/160317m |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol | orethanjustwordscy.pdf |
| Hawliau Dynol: Ymrwymiad AGC i hybu a chynnal hawliau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth | https://gov.wales/docs/cssiw/general/170309humanrightscy.pdf |
| Hysbysiad Preifatrwyd AGC | https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol |
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) | https://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/2/pdfs/mwa_20090002_we.pdf |
| Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2011) | https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/pdfs/mwa_20110004_we.pdf |
| Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 | http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/1/pdfs/mwa_20100001_we.pdf |
| Safonau'r Gymraeg | http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/996/schedule/1/made/welsh |
| Y Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol | https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/c%C3%B4d-ymarfer-ar-gyfer-gofal-cymdeithasol---adnoddau |

Atodiad 1

Fframwaith arolygu a gwerthuso perfformiad



Atodiad 2

Atodlen gweithgarwch gwerthuso perfformiad ac arolygu

| Gweithgarwch Gwerthuso Perfformiad | Pa mor aml |
|--|------------------------------------|
| Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth Awdurdod Lleol | Ddwywaith y flwyddyn |
| Cyfarfod Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol | Bob blwyddyn |
| Cyfarfod Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol | Bob blwyddyn |
| Gweithgarwch â phwyslais penodol (gweler paragraff 5.6) | O leiaf 2 weithgaredd bob blwyddyn |
| Cynhadledd Gwella | Fel y bo angen |

| Gweithgarwch Arolygu | Pa mor aml |
|--|--|
| Arolygiad thematig wedi'i drefnu ymlaen llaw – gwasanaethau oedolion | Bob pedair blynedd fwy neu lai |
| Arolygiad thematig wedi'i drefnu ymlaen llaw – gwasanaethau plant | Bob pedair blynedd fwy neu lai |
| Arolygiad dilynol (lle bo angen) | O fewn 12-18 mis i'r arolygiad thematig wedi'i drefnu ymlaen llaw. |
| Arolygiad ymatebol | Fel y bo angen |